**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-536
Ein cyf/Our ref CS/01163/14

William Powell AC
Aelod o'r Cynulliad ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

23 Medi 2014

Annwyl Bill

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Medi a'r ohebiaeth amgaeedig oddi wrth World Animal Protection (WAP) dyddiedig 20 Mehefin, ynghylch eu deiseb i roi stop ar ffermydd godro 'ffatri' yng Nghymru.

Rwyf hefyd wedi darllen llythyr WAP sy'n ymateb i'm llythyr i i'r Pwyllgor Deisebau ym mis Ebrill ac rwy'n trafod y pwyntiau y maent yn eu codi isod. Dylech ddarllen fy sylwadau ar y cyd â'r rheini yn fy llythyr blaenorol i'r Pwyllgor.

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys i gefnogi fy mhenderfyniad i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Lower Leighton Farm, nid yw'n briodol imi drafod na chynnig sylw pellach ar yr achos hwnnw nac ar y rhesymau dros ddyfarniad y llys.

Yn llythyr WAP (tudalen 2), cyfeirir at y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r *Pew Commission on Industrial Farm Animal Production (PCIFAP)*. Mae'r astudiaeth honno'n ymdrin â'r systemau a rheoliadau ffermio sy'n weithredol yn UDA ac nid yw felly'n briodol trosglwyddo'i chanfyddiadau na'i chasgliadau i sefyllfa amaethyddiaeth Cymru sy'n gweithredu o dan reoliadau gwahanol.

O ran y buddiannau economaidd (tudalennau 7 ac 8), ni chredir bod ffermydd mawr yn difetha busnes ffermydd bach, ond oherwydd arbedion maint, gellid dadlau bod unedau mwy yn gallu buddsoddi mwy i fabwysiadu technegau ac arferion modern yn gynt na ffermydd llai. O ran proffidioldeb – gall buches fach, o'i rheoli'n dda, wneud cymaint o elw fesul buwch â buches fwy. Mae buchesi mawr yn "byw ar borfa" hefyd yn yr ystyr eu bod yn bwyta silwair neu borfa cadw. Mae pori yn rhatach na silwair, ond mae'n gymhlethach na hynny. Mae proffidioldeb systemau porfa llai cynhyrchiol yn dibynnu ar y tywydd, ond mae elw systemau godro mwy cynhyrchiol sy'n defnyddio dwysfwyd ŷd neu brotein yn dibynnu ar brisiau porthiant a brynir.

Yn unol â deddfwriaeth lles anifeiliaid fferm yng Nghymru, rhaid i ffermwyr ddiwallu 5 angen eu hanifeiliaid, sef darparu amgylchedd a diet addas, iechyd, eu caniatáu i arfer patrymau ymddygiad normal, eu diogelu rhag niwed a chaniatáu neu beidio â chaniatáu cwmni anifeiliaid eraill iddynt yn ôl y gofyn. Yr un amodau sy'n gorfod cael eu bodloni p'un ai defaid ar fynydd sydd gennych neu wartheg dan do drwy'r flwyddyn.

Mae Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC) yn cynghori Llywodraeth Cymru (ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth yr Alban) ar les anifeiliaid fferm. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried lles gwartheg godro sy'n cael eu cadw o dan do'n barhaol. Yn eu cyngor, mae'r FAWC yn cydnabod manteision ac anfanteision cadw gwartheg godro dan do drwy'r flwyddyn ac yn credu ei bod yn neilltuol o bwysig os yw buwch odro yn cael ei chadw dan do drwy'r flwyddyn heb gyfle i bori, bod y sied a'r cyfleusterau cyffredinol yn addas fel bod y fuwch yn para'n iach ac yn cael gofal da wrth gynhyrchu'r llaeth gofynnol. Yn ogystal â darparu adnoddau, rheolaeth dda, gofal milfeddygol o'r radd flaenaf a nifer digonol o stocmyn, credir ei bod yn rhaid hefyd wrth hwsmonaeth o'r ansawdd uchaf.

Cyn belled ag y bodlonir yr amodau hyn a thra'n disgwyl am y dystiolaeth newydd ynghylch gallu buwch odro i arfer ymddygiad normal, cyngor FAWC yw bod modd bodloni lles buwch sydd o dan do drwy'r flwyddyn heb gyfle i bori.

Dyma ddolen i'r cyngor a gyflwynwyd gan FAWC ym mis Awst 2010.

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110615095037/http://www.fawc.org.uk/pdf/cows-welfare-letter.pdf

Mae WAP yn mynegi pryderon hefyd ynghylch lles buchod unigol mewn buches fawr (tudalen 2 a 5). Mae heriau'n gysylltiedig â chadw unrhyw nifer o anifeiliaid mewn grwpiau, boed fach neu fawr. Mae unedau mawr wedi datblygu prosesau i fonitro perfformiad yr anifail a gall hynny ychwanegu at ei les. Mae modd monitro iechyd traed y gwartheg a chanfod cloffni'n fuan trwy systemau asesu cerddediad awtomatig, gan roi cyfle i ymyrryd yn ôl y gofyn. Mae systemau o'r fath yn cael eu defnyddio yn y mannau lle mae'r anifeiliaid yn cael eu crynhoi, wrth allanfeydd unedau godro, gan fonitro'r anifeiliaid sawl gwaith y dydd. Mae systemau cyfrifiadurol integredig sy'n gallu monitro'r cynhyrchiant llaeth ynghyd â faint o borthiant sy'n cael ei fwyta a pha mor aml y mae'r anifail yn bwyta yn gallu tynnu sylw'r stocmyn at anifeiliaid sydd ar drothwy dioddef rhyw afiechyd traul cyn bod sefyllfa'n cael cyfle i ddirywio'n ddifrifol.

Mae'n ddefnyddiol cymharu amodau o'r fath â'r amodau allai fodoli ar ddaliadau lle ceir systemau mwy traddodiadol yr ystyrir eu bod yn garedicach wrth yr anifail. O dan batrymau pori llai dwys, nid yw'r oruchwyliaeth mor gyson o bosibl ar yr anifail. Mae perygl peidio â sylwi ar arwyddion afiechyd os nad oes gan yr uned lai systemau cofnodi mor drylwyr. Gallai hynny arwain at ddatblygu afiechydon mwy difrifol fyddai'n gofyn am ymyrraeth mwy dwys.

O safbwynt y sylw ar giwbiclau ar dudalen 5, mae buchod sy'n cael eu cadw mewn unedau mwy yn cael eu rheoli mewn ffordd debyg i wartheg mewn unedau llai – yng Nghymru, cedwir y ddau grŵp mewn siediau gyda chiwbiclau. Nid yw'r cyfeiriad o 1989 bellach yn berthnasol, mae dyluniad ciwbiclau wedi newid a gwella'n ddirfawr yn y 25 mlynedd diwethaf.

Cedwir golwg fanwl ar les anifeiliaid fferm yng Nghymru. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) ac adrannau Safonau Masnachu awdurdodau lleol ill dau yn archwilio lles anifeiliaid. Mae'r AHVLA a'r awdurdodau lleol yn ymateb i gwynion y cyhoedd trwy gynnal archwiliad a allai arwain at yr AHVLA yn argymell awdurdodau lleol i weithredu ymhellach. Mae cyfrifioldebau eraill AHVLA yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a rhaglenedig i fonitro bod ffermydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd orfodol.

O safbwynt slyri (tudalennau 7, 8, 13 ac 14), bydd y swm a gynhyrchir ar ffermydd mawr lawer yn fwy nag ar ffermydd bach. Fodd bynnag, yr un fydd y swm a gynhyrchir gan bob buwch, waeth beth yw maint y fuches y mae'n perthyn iddi. Mae gan ffermydd mwy, ar y cyfan, gyfleusterau gwell ar gyfer storio, rheoli a gwasgaru slyri. Byddent er enghraifft yn fwy tebygol o symud slyri trwy biben yn hytrach na thancer ac o chwistrellu slyri (i'r pridd) neu ddefnyddio systemau gwasgaru isel. Mae hynny'n lleihau'r drewdod ac yn esgor ar fanteision mawr i'r ffermwr trwy ddefnyddio maethynnau'r slyri'n well.

O ran Cynllunio, rwy'n ailadrodd fy safbwynt blaenorol a gyflwynais i'r Pwyllgor Deisebau fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 7 Ebrill, sef yr ystyrir bod y polisi cynllunio presennol yn rhoi digon o hyblygrwydd i asesu a chloriannu'r problemau y mae ffermydd godro (a mathau eraill o ffermydd), yn rhai bach ac yn rhai mawr, yn esgor arnynt yn ôl eu rhinweddau cynllunio. Mater i awdurdodau cynllunio lleol yw ystyried y dystiolaeth a gyflwynir gan geiswyr a phenderfynu a yw'r cynnig yn briodol ai peidio. Mae'r system gynllunio yn cynnwys prosesau ar gyfer ystyried pryderon y cyhoedd ynghylch ceisiadau cynllunio a'r datblygiadau nad ydynt wedi dilyn y rheolau cynllunio'n gywir. Mae ceisiadau'n gallu cael eu Galw i Mewn er mwyn i Weinidogion Cymru yn lle awdurdodau cynllunio lleol allu dyfarnu arnynt, ac mae datblygiadau sy'n cael eu cynnal heb y caniatâd angenrheidiol neu sydd wedi torri amodau'r awdurdod cynllunio lleol yn destun gweithredu.

Rwyf wedi nodi'r astudiaethau achos y mae WAP wedi'u cyflwyno yn Atodiad A (tudalennau 11 i 15) y cyfeirir atyn nhw hefyd ar dudalennau 6 a 7 eu llythyr, ond alla' i ddim ymateb i'r materion penodol y maen nhw'n eu codi gan mai materion y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanyn nhw ydyn nhw. Fodd bynnag, mae materion fel sŵn, traffig, effaith amgylcheddol, amwynder ac iechyd i gyd yn ffactorau y mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, pa beth bynnag yw maint y datblygiad dan sylw. Lle gwelir y bu diffyg, camgymeriad neu amhriodoldeb yn y broses gynllunio, mae mecanweithiau'n bod i ymchwilio iddynt a'u hunioni ac yn cynnwys y cyfle i gysylltu â swyddog monitro'r awdurdod lleol neu Ombwdsmon Cymru.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cyfeirio at slyri a llygredd. Mae'n esbonio bod hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu rhoi ar gyfer ystod o adeiladau a gweithgareddau amaethyddol. Fodd bynnag, nid yw'r hawliau hyn ar gael i adeiladau fydd yn cael eu defnyddio i gadw da byw neu adeileddau cysylltiedig fel tanciau a lagwnau slyri sy'n cael eu hadeiladu o fewn 400 metr i 'adeilad gwarchodedig'. Mae adeiladau gwarchodedig yn cynnwys y rhan fwyaf o adeiladau preswyl a pharhaol eraill fel ysgolion, ysbytai a swyddfeydd. Er mwyn cadw'r gwrthdaro rhwng cymdogion yn fach, dylai awdurdodau cynllunio fod yn ofalus wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau gwarchodedig o fewn 400 metr i uned da byw sy'n bod eisoes.

Mae’r rheoliadau (Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991) yn pennu’r safonau gofynnol ar gyfer cyfleusterau silwair, slyri neu olew tanwydd sy’n newydd, sy’n cael eu hailadeiladu neu sy’n cael eu hehangu. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y grym i roi gorchymyn i wella adeileddau lle ystyrir bod perygl o lygredd mawr.  Mae’r rheoliadau hyn yn rhan bwysig o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i

leihau llygredd amaethyddol mewn afonydd.  Anogir awdurdodau cynllunio i ddangos cydymdeimlad wrth ystyried cynigion datblygu sy’n anelu at wireddu’r rheoliadau hyn.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources